OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 1291 (Cy. 326)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *am 3.58 p.m. ar 19 Tachwedd 2021* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *am 6.00 p.m. ar 19 Tachwedd 2021* |
| *Yn dod i rym - -* | *4.00 a.m. ar 22 Tachwedd 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B, 45C(1) a (3)(c), a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mewn perthynas â'r ddarpariaeth a wneir gan reoliad 9 o'r Rheoliadau hyn, yn unol ag adran 45Q(3) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae Gweinidogion Cymru o'r farn nad yw'r offeryn yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth a wneir yn rhinwedd adran 45C(3)(c) o'r Ddeddf sy'n gosod neu'n galluogi gosod cyfyngiad neu ofyniad arbennig, neu unrhyw gyfyngiad neu ofyniad arall sy'n cael neu a fyddai'n cael effaith sylweddol ar hawliau person.

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 22 Tachwedd 2021.

### Diwygiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020

**2.** Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(**2**) O.S. 2020/574 (Cy. 132), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/942, O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220), O.S. 2020/1015 (Cy. 226), O.S. 2020/1042 (Cy. 231), O.S. 2020/1080 (Cy. 243), O.S. 2020/1098 (Cy. 249), .S. 2020/1133 (Cy. 258), O.S. 2020/1165 (Cy. 263), O.S. 2020/1191 (Cy. 269), O.S. 2020/1223 (Cy. 277), O.S. 2020/1232 (Cy. 278), O.S.

**Diwygiad i reoliad 2**

**3.** Yn rheoliad 2(1) (dehongli cyffredinol), yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "Tystysgrif COVID Ddigidol yr UE" ("*EU Digital COVID Certificate*") yw tystysgrif o gofnodion COVID-19 a ddyroddir gan wladwriaeth AEE, Aelod-wladwriaeth o'r Gymdeithas Fasnach Rydd Ewropeaidd, Andorra, Gwladwriaeth Dinas y Fatican, Monaco neu San Marino;".

**Diwygiadau i reoliad 2A**

**4.**—(1) Mae rheoliad 2A (esemptiadau ar gyfer teithwyr sydd wedi eu brechu ac eraill) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (3)—

(a) hepgorer is-baragraff (b);

(b) hepgorer is-baragraff (ba);

(c) yn is-baragraff (c)—

(i) ar ôl paragraff (ii) mewnosoder—

"(iia) tystysgrif o gofnodion COVID-19 a ddyroddir gan drydedd wlad neu diriogaeth a gymeradwywyd;

(iib) Tystysgrif Gogledd America;";

(ii) ar y diwedd, mewnosoder "a";

(d) hepgorer is-baragraff (ca).

(3) Ym mharagraff (4A)—

(a) ar ddiwedd is-baragraff (b), mewnosoder "ac";

(b) ar ôl is-baragraff (c), hepgorer "a";

(c) hepgorer is-baragraff (d).

(4) Ym mharagraff (5), hepgorer is-baragraff (a).

(5) Ym mharagraff (6)—

(a) yn y geiriau agoriadol, hepgorer "naill ai";

(b) ar ddiwedd is-baragraff (a)(iii) hepgorer ", neu";

(c) hepgorer is-baragraff (b).

(6) Yn lle paragraff (7A), rhodder—

"(7A) At ddibenion paragraff (3)—

(a) pan fo P wedi cael dos o un brechlyn awdurdodedig a dos o frechlyn awdurdodedig gwahanol, bernir bod P wedi cwblhau cwrs o ddosau o frechlyn awdurdodedig;

(b) pan fo P wedi cael o leiaf dau ddos o unrhyw un o'r brechlynnau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (d) o'r diffiniad o "brechlyn awdurdodedig", bernir bod P wedi cwblhau cwrs o ddosau o frechlyn awdurdodedig."

2020/1237 (Cy. 279), O.S. 2020/1288 (Cy. 286), O.S. 2020/1329 (Cy. 295), O.S. 2020/1362 (Cy. 301), O.S. 2020/1477 (Cy. 316), O.S. 2020/1521 (Cy. 325), O.S. 2020/1602 (Cy. 332), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/24 (Cy. 8), O.S. 2021/46 (Cy. 10), O.S. 2021/48 (Cy. 11), O.S. 2021/50 (Cy. 12), O.S. 2021/66 (Cy. 15), O.S. 2021/72 (Cy. 18), O.S. 2021/95 (Cy. 26), O.S. 2021/154 (Cy. 38), O.S. 2021/305 (Cy. 78), O.S. 2021/361 (Cy. 110), O.S. 2021/454 (Cy. 144), O.S. 2021/500 (Cy. 149), O.S. 2021/568 (Cy. 156), O.S. 2021/584 (Cy. 161), O.S. 2021/646 (Cy. 166), O.S. 2021/669 (Cy. 170), O.S. 2021/765 (Cy. 187), O.S. 2021/826 (Cy. 193), O.S. 2021/863 (Cy. 202), O.S. 2021/867 (Cy. 203), O.S. 2021/915 (Cy. 208), O.S. 2021/926 (Cy. 211), O.S. 2021/967 (Cy. 227), O.S. 2021/1063 (Cy. 250), O.S. 2021/1109 (Cy. 265), O.S. 2021/1126 (Cy. 273) ac O.S. 2021/1212 (Cy. 303).

(7) Ym mharagraff (8), hepgorer “yn y Deyrnas Unedig”.

(8) Ym mharagraff (10)—

(a) yn y diffiniad o “brechlyn awdurdodedig”—

(i) yn y geiriau o flaen paragraff (a), hepgorer “a awdurdodwyd”;

(ii) ym mharagraff (a), ar ôl “y Deyrnas Unedig” mewnosoder “, a awdurdodwyd”;

(iii) ym mharagraff (b), ar ôl “ym mharagraff (11),” mewnosoder “a awdurdodwyd”;

(iv) ar ôl paragraff (c) mewnosoder—

“(d) mewn perthynas â dosau a geir mewn unrhyw wlad yn y byd, y brechlynnau hynny sydd—

(i) wedi eu rhestru yn llinellau 10, 11 neu 13 o’r Ddogfen Ganllaw “Status of COVID-19 Vaccines within WHO EUL/PQ evaluation process” a gyhoeddwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd ar 11 Tachwedd 2021, a

(ii) wedi eu hawdurdodi neu eu hardystio mewn gwlad reoleiddiedig a restrir ym mharagraff (12);”;

(b) yn y lle priodol mewnosoder—

“ystyr “Tystysgrif Gogledd America” (“*North American Certificate*”) yw—

(a) Excelsior Pass Plus (Efrog Newydd);

(b) Cofnod Brechlyn COVID-19 Digidol (California);

(c) WA Verify (talaith Washington);”;

(c) yn y diffiniad o “rhaglen frechu’r Deyrnas Unedig dramor”—

(i) ar ddiwedd paragraff (a), mewnosoder “neu”;

(ii) hepgorer paragraff (b) (gan gynnwys y “neu” ar y diwedd).

(9) Ym mharagraff (12), yn y lleoedd priodol mewnosoder—

“Belarws”

“Bolivia”

“Ecuador”

“Gweriniaeth Dominica”

“Gweriniaeth Ddemocrataidd Congo”

“Laos”

“Libya”

“Malawi”

“Mozambique”

“Samoa”

“Senegal”

“Vanuatu”

“Zambia”

“Zimbabwe”.

(10) Ar ôl paragraff (12), mewnosoder—

“(12A) Mae’r gwledydd a’r tiriogaethau a ganlyn yn drydydd gwledydd neu diriogaethau a gymeradwywyd at ddibenion y Rhan hon—

Albania

Armenia

Gogledd Macedonia

Israel

Morocco

Panama

Twrci

Wcrain

Ynysoedd Ffaro."

**Diwygiadau i reoliad 3**

**5.**—(1) Mae rheoliad 3 (personau sy'n cyrraedd o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (2)—

(a) ar ôl is-baragraff (a), mewnosoder—

"(aa) person a ddisgrifir ym mharagraffau 6 i 10 o Atodlen 2."

(b) hepgorer is-baragraff (c).

(3) Hepgorer paragraffau (3) a (4).

**Diwygiadau i reoliad 9**

**6.**—(1) Mae rheoliad 9 (gofynion ynysu: esemptiadau) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (2)—

(a) yn lle is-baragraff (a) rhodder—

"(aa) person a ddisgrifir ym mharagraff 1(1)(a), (b), (h) neu (k) o Atodlen 2, neu aelod o'r teulu sy'n ffurfio rhan o aelwyd person o'r fath;

(bb) person a ddisgrifir ym mharagraff 1(1)(c), (d), (e), (f), (g), (i) neu (j) o Atodlen 2, neu aelod o'r teulu sy'n ffurfio rhan o aelwyd person o'r fath, ac sy'n bodloni'r amodau ym mharagraff 1(2) o'r Atodlen honno;".

(b) yn is-baragraff (b), yn lle "2 i 5, 6A i 16" rhodder "2 i 16";

(c) hepgorer is-baragraff (c);

(d) yn is-baragraff (d), hepgorer "yn ddarostyngedig i baragraff (3),".

(3) Hepgorer paragraffau (3) i (6).

**Diwygiad i reoliad 10**

**7.** Yn rheoliad 10 (gofynion ynysu: eithriadau), hepgorer paragraff (4)(o).

**Diwygiad i Atodlen 2**

**8.** Ym mharagraff 1(2) o Atodlen 2 (personau esempt), yn lle "9(2)(a)" rhodder "9(2)(bb)".

**Diwygiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020**

**9.**—(1) Mae rheoliad 16A (mesurau penodol sy'n gymwys i leoliadau a mangreoedd lletygarwch ac adloniant penodedig neu lle y cynhelir digwyddiadau penodedig) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020(**3**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (6)—

(a) yn is-baragraff (a), hepgorer paragraff (i) (gan gynnwys yr "a" ar y diwedd);

(b) yn is-baragraff (c)—

(i) yn lle "gan wlad berthnasol" rhodder "ac eithrio yn y Deyrnas Unedig";

(ii) ar ôl "dystysgrif COVID ddigidol yr UE," mewnosoder "tystysgrif cofnodion COVID-19 a ddyroddir gan drydedd wlad neu diriogaeth a gymeradwywyd,";

(iii) ar ôl "Canolfannau Rheoli ac Atal Clefydau," mewnosoder "Tystysgrif Gogledd America".

(3) Yn lle paragraff (8), rhodder—

"(8) At ddibenion y rheoliad hwn, pan fo person wedi cael cwrs o ddosau sy'n cynnwys un dos o frechlyn awdurdodedig o dan raglen frechu'r Deyrnas Unedig dramor ac un dos o frechlyn awdurdodedig ac eithrio o dan raglen frechu'r Deyrnas Unedig dramor, bernir bod y person wedi cwblhau cwrs o ddosau o frechlyn o dan raglen frechu'r Deyrnas Unedig dramo"r.

(4) Ym mharagraff (9)(b)—

(a) yn lle'r geiriau o flaen paragraff (i) rhodder—

"(b) mae person wedi cwblhau cwrs o ddosau—";

(b) ym mharagraff (i)(bb), hepgorer y ", neu" ar y diwedd;

(c) ym mharagraff (ii), mewnosoder ", neu" ar y diwedd;

(d) ar ôl paragraff (ii) mewnosoder—

"(iii) os yw'r person wedi cael o leiaf dau ddos o unrhyw frechlyn y cyfeirir ato ym mharagraff (iv) o'r diffiniad o frechlyn awdurdodedig ym mharagraff (10)(a);".

(5) Ym mharagraff (10)—

(a) yn is-baragraff (a)—

(i) yn y geiriau o flaen paragraff (i), hepgorer "a awdurdodwyd";

(ii) ym mharagraff (i), yn y geiriau o flaen is-baragraff (aa), yn lle "neu mewn gwlad berthnasol a restrir ym mharagraff (12), rhodder ", a awdurdodwyd";

(iii) ym mharagraff (ii), ar ôl "ym mharagraff (11)," mewnosoder "a awdurdodwyd";

(iv) ar ôl paragraff (ii) mewnosoder—

"(iii) mewn perthynas â dosau a geir mewn unrhyw wlad neu diriogaeth arall (gan gynnwys gwlad berthnasol a restrir ym mharagraff (12)), a fyddai'n awdurdodedig fel y darperir ar ei gyfer ym mharagraff (i)(aa) neu (bb) pe bai'r dosau wedi eu cael yn y Deyrnas Unedig;

(iv) mewn perthynas â dosau a geir mewn unrhyw wlad yn y byd, y brechlynnau hynny sydd—

(**3**) O.S. 2020/1609 (Cy. 335) a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/1610 (Cy. 336), O.S. 2020/1623 (Cy. 340), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/46 (Cy. 10), O.S. 2021/57 (Cy. 13), O.S. 2021/66 (Cy. 15), O.S. 2021/95 (Cy. 26), O.S. 2021/103 (Cy. 28), O.S. 2021/172 (Cy. 40), O.S. 2021/210 (Cy. 52), O.S. 2021/307 (Cy. 79), O.S. 2021/413 (Cy. 133), O.S. 2021/502 (Cy. 150), O.S. 2021/542 (Cy. 154), O.S. 2021/583 (Cy. 160), O.S. 2021/668 (Cy. 169), O.S. 2021/686 (Cy. 172), O.S. 2021/722 (Cy. 183), O.S. 2021/862 (Cy. 201), O.S. 2021/925 (Cy. 210), O.S. 2021/970 (Cy. 228), O.S. 2021/1119 (Cy. 271); O.S. 2021/1131 (Cy. 274), O.S. 2021/1212 (Cy. 303) ac O.S. 2021/1248 (Cy. 320).

(aa) wedi eu rhestru yn llinellau 10, 11 neu 13 o'r Ddogfen Ganllaw "Status of COVID-19 Vaccines within WHO EUL/PQ evaluation process" a gyhoeddwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd ar 11 Tachwedd 2021, a

(bb) wedi eu hawdurdodi neu eu hardystio mewn gwlad reoleiddiedig a restrir ym mharagraff (12);";

(b) ar ôl is-baragraff (a) mewnosoder—

"(aa) ystyr "Tystysgrif COVID Ddigidol yr UE" yw tystysgrif o gofnodion COVID-19 a ddyroddir gan wladwriaeth AEE, Aelod-wladwriaeth o'r Gymdeithas Fasnach Rydd Ewropeaidd, Andorra, Gwladwriaeth Dinas y Fatican, Monaco neu San Marino;";

(c) ar ôl is-baragraff (c) mewnosoder—

"(ca) ystyr "Tystysgrif Gogledd America" yw—

(i) Excelsior Pass Plus (Efrog Newydd);

(ii) Cofnod Brechlyn COVID-19 Digidol (California);

(iii) WA Verify (talaith Washington);".

(6) Ym mharagraff (12), yn y lleoedd priodol mewnosoder—

"Belarws"

"Bolivia"

"Ecuador"

"Gweriniaeth Dominica"

"Gweriniaeth Ddemocrataidd Congo"

"Laos"

"Libya"

"Malawi"

"Mozambique"

"Samoa"

"Senegal"

"Vanuatu"

"Zambia"

"Zimbabwe".

(7) Ar ôl paragraff (12) mewnosoder—

"(13) Mae'r gwledydd a'r tiriogaethau a ganlyn yn drydydd gwledydd neu diriogaethau a gymeradwywyd at ddibenion y rheoliad hwn—

Albania

Armenia

Gogledd Macedonia

Israel

Morocco

Panama

Twrci

Wcrain

Ynysoedd Ffaro."

*Eluned Morgan*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Am 3.58 p.m. ar 19 Tachwedd 2021

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1609 (Cy. 335)) ("y Rheoliadau Cyfyngiadau").

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod a bennir yn unol â'r Rheoliadau hynny. Mae'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o berson wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio. Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol hefyd yn gwneud darpariaethau penodol ar gyfer "teithwyr rheoliad 2A"; gan gynnwys unigolion sydd wedi eu brechu'n llawn mewn gwledydd a thiriogaethau rhagnodedig.

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 2 (dehongli cyffredinol) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn estyn y gydnabyddiaeth o dystysgrifau brechlyn penodol a ddyroddir gan wledydd a thiriogaethau Ewropeaidd ychwanegol, at ddibenion esemptiadau teithio o ran profi cyn ymadael a brechlynnau.

Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 2A (esemptiadau ar gyfer teithwyr sydd wedi eu brechu ac eraill) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn—

- estyn y gydnabyddiaeth o frechiadau i ragor o wledydd a thiriogaethau;
- ehangu'r diffiniad o "brechlyn awdurdodedig" drwy ddileu'r gofyniad ei fod i'w weinyddu mewn gwlad berthnasol a thrwy gydnabod brechlynnau penodol a gydnabyddir gan Sefydliad Iechyd y Byd;
- dileu'r gofynion preswylio ar gyfer teithwyr sydd wedi eu brechu yn Unol Daleithiau America, cyfranogwyr mewn treialon clinigol, a theithwyr o dan 18 oed;
- cyflwyno dulliau pellach i deithwyr brofi eu bod wedi eu brechu, gan gynnwys tystysgrifau trydydd gwledydd a thiriogaethau a gymeradwywyd a thystysgrifau brechu taleithiau penodol yn yr Unol Daleithiau;
- gwneud diwygiadau technegol pellach gan gynnwys ynghylch brechiadau fel rhan o raglen frechu'r DU dramor.

Mae rheoliad 5 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 3 (personau sy'n cyrraedd o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i esemptio'r personau a ganlyn rhag y gofyniad i ddarparu gwybodaeth am deithiwr pan fônt wedi teithio i Gymru yng nghwrs eu gwaith (pa un a ydynt wedi teithio ar gludiant sy'n cario teithwyr ai peidio): gweithwyr cludiant ffyrdd; gweithwyr cludiant teithwyr ffyrdd; meistri a morwyr; peilotiaid ar longau masnach; arolygwyr a syrfewyr llongau; a chriw awyren.

Mae rheoliad 6 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 9 (gofynion ynysu: esemptiadau) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, gan ddileu'r gofyniad i ddiplomyddion penodol gael awdurdodiad ysgrifenedig gan y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu cyn dibynnu ar ddarpariaethau esemptio rhag ynysu. Mae rheoliad 9 hefyd wedi ei ddiwygio er mwyn cysoni esemptiadau rhag ynysu ar gyfer gweithwyr cludiant ffyrdd ni waeth beth fo'u statws preswylio.

Mae rheoliadau 7 ac 8 yn cynnwys diwygiadau canlyniadol yn dilyn y diwygiadau a wneir gan reoliad 4.

Mae rheoliad 9 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 16A (mesurau penodol sy'n gymwys i leoliadau a mangreoedd lletygarwch ac adloniant penodedig neu lle y cynhelir digwyddiadau penodedig) o'r Rheoliadau Cyfyngiadau er mwyn cynnal cysondeb â rheoliad 2A o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae hyn yn cynnwys estyn ymhellach y rhestr o wledydd a thiriogaethau ym mharagraff (12) o'r rheoliad hwnnw fel bod tystiolaeth o frechu yn y gwledydd hynny â brechlynnau sydd wedi eu hawdurdodi yn y Deyrnas Unedig hefyd yn dderbyniol at ddibenion yr hyn a adwaenir yn gyffredin fel y pàs COVID.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.